

# Tyfu Canolbarth Cymru
# Cylchlythyr mis Mawrth

## Beth sydd wedi bod yn digwydd y mis hwn?



Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd, onid yw'n wych gweld y Cennin Pedr a'r Lili Wen fach eto! Yn ddiweddar, fe ddathlwyd Dydd Gwŷl Dewi gyda phicau ar y maen neu ddwy - yr oedd ei angen i gadw'n egni i fyny gan ein bod wedi bod yn brysur iawn gyda llawer o ddatblygiadau – digwyddiad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, lansiad y cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, newyddion ariannu a chroesawu aelodau newydd i'r tîm.

Yn **Cwrdd â'r Tîm** y mis yma, rydym yn rhoi sylw i Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Helpu i gynyddu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

***** A yw'ch sefydliad chi yn rhan o bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru?  Neu, a ydych chi'n aelod o grŵp sydd wedi cael budd gan gyllid datblygu rhanbarthol Ewropeaidd? Os ydych, hoffem rannu ychydig o'ch newyddion mewn cylchlythyrau yn y dyfodol. Cysylltwch gyda ni!

**Darllenwch ymlaen am wybodaeth ar:**

- Digwyddiad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-2025
- Newyddion Bargen Dwf
- Galwad agored ar gyfer ymgeiswyr Cronfa Ffyniant Gyffredin Canolbarth Cymru
- Cwrdd âr tîm
- Ffaith y mis: Prentis o Drenewydd a ddaeth yn entrepreneur byd-enwog
- Newyddion eraill
- Y wybodaeth ddiweddaraf

## Tyfu -Diffinio-Cyflawni Gyda'n Gilydd



Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh) ar 23 Mawrth i roi cyfle i fusnesau Canolbarth Cymru ddod at ei gilydd i siarad am yr hyn sydd ei angen arnynt ar gyfer y dyfodol i gyflawni amcanion eu busnes.

Fe’i gynhaliwyd yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, gan ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ym maes caffael, tendro, recriwtio, sgiliau a hyfforddiant i fusnesau a oedd yn bresennol. Yn ogystal, roedd yn gyfle i rwydweithio ac i edrych i mewn i gyfleoedd uwchsgilio, hyfforddiant a phrentisiaethau.

Trafodwyd pynciau allweddol gan gynnwys Sgiliau Gwyrdd a Sero Net; edrych ar ffyrdd o baratoi ac addasu sefydliadau a chadwyni cyflenwi ar gyfer yr economi werdd, adnabod sgiliau gwyrdd ar gyfer y gweithlu a sut y gellir cyflawni'r rhain.

Yn ystod y digwyddiad cafodd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-2025 ei lansio'n swyddogol. Mwy am hyn yn nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn.

Os gwnaethoch chi golli'r digwyddiad ond hoffech chi fod ynghlwm â gwaith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru efallai yr hoffech chi ymuno â’r Grŵp Clwster Busnes sy’n cael eu greu. Rydym yn chwilio am arweinyddion busnes/arbenigwr yng Nghanolbarth Cymru i ymuno â'r Grŵp Clwstwr Busnes fydd yn ceisio helpu'r PSRh i adnabod a mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r materion sy'n effeithio ar fusnesau yng Nghanolbarth Cymru

Mae'r grŵp clwstwr yn is-grŵp cynghori o'r PSRh gydag aelodau'n cynnwys arweinwyr ym maes diwydiant a busnes. Mae angen mwy o aelodau i sicrhau bod cydbwysedd cynrychiolwyr o wahanol sectorau ac amrywiaetho fusnesau micro, canolig a mawr.

Dywedodd Emma Thomas, Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru: "Helpwch ni i ddeall eich rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio, gan alluogi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru i fod yn llais i chi pan a ble mae'n bwysig."

I ymuno â'r grŵp clwstwr, e-bostiwch midwalesrsp@powys.gov.uk.




## Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru  2022-2025




Drwy ymgysylltu'n agos â busnesau, gan roi llais iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth, mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â phwysigrwydd gwneud cysylltiadau cryf rhwng y system ddysgu leol a'r sgiliau sydd eu hangen ar draws y rhanbarth, fel ein bod yn creu'r amodau cywir ar gyfer gweithlu ffyniannus.

Wedi'i lansio yn nigwyddiad **Tyfu-Diffiniwch-Cyflawni Gyda'n Gilydd**, mae'r Cynllun yn nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru ac, mae'n nodi'r mecanwaith i greu seilwaith sgiliau mwy llewyrchus ar gyfer y rhanbarth am y 3 blynedd nesaf a thu hwnt.

Gweler y cynllun ar ein gwefan yma.




## Newyddion Bargen Dwf

Yng nghyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, cymeradwywyd dogfennau allweddol, gan symud Bargen Dwf Canolbarth Cymru gam yn nes at dderbyn cyfanswm o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Bydd fersiwn ddiweddaraf Achos Busnes Strategol y Portffolio, sef y ddogfen sy’n manylu ar sut y bydd Portffolio’r Fargen Dwf yn cael ei gyflawni ac yn diwallu ei amcanion, nawr yn cael ei chyflwyno i’r ddwy Lywodraeth ynghyd â dogfennau ategol hanfodol fel y gallant ystyried rhoi’r gyfran gyntaf o gyllid ar gyfer Bargen Dwf Canolbarth Cymru.

Darllenwch mwy ar ein wefan.

## Galwad agored ar gyfer ymgeiswyr Cronfa Ffyniant Gyffredin Canolbarth Cymru

O 20 Mawrth ymlaen gall prosiectau sy'n gweithredu yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys gyflwyno eu ceisiadau amlinellol am gyllid mewn cyfres o ddwy alwad agored.

Bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cefnogi amcanion y Cynllun Ffyniant Bro, sy'n ceisio:

- Gwella cynhyrchiant, cyflog, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ar ei hôl hi
- Gwasgaru cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ar eu gwannaf
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent wedi'u colli
- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y llefydd hynny heb asiantaeth leol
- Drwy'r Rhaglen Lluosi, cynyddu lefelau rhifedd ymarferol ymhlith oedolion yn y boblogaethNoder bod ardaloedd Awdurdod Lleol Ceredigion a Phowys yn derbyn dyraniadau unigol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Os ydych yn bwriadu gwneud cais rhanbarthol, cysylltwch â'r ddau awdurdod i drafod ymhellach.

I wneud cais ar gyfer y gronfa ac i gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion pwysig y dylai sefydliadau feddwl amdanynt cyn ymgeisio, ewch i dudalen Cronfa Ffyniant Gyffredin Canolbarth Cymru ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, www.tyfucanolbarth.cymru/UKSPFCanolbarthCymru

Cynhaliwyd gweminar ar alwad agored CFfR Canolbarth Cymru ar 16 Mawrth. Rhoddodd y sesiwn wybodaeth hon, a fynychwyd gan dros 150 o gyfranogwyr, drosolwg o'r gronfa, ffocws yr alwad ym mhob ardal, awgrymiadau i helpu gyda cheisiadau a sesiwn holi ac ateb ar y diwedd. Peidiwch â phoeni os colloch chi'r gweminar, gallwch weld y sleidiau ar y wefan . Os hoffech gyflwyno unrhyw gwestiynau sydd gennych,  ukspf@ceredigion.gov.uk neu ukspf@powys.gov.uk.




## Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Y mis hwn, ymunodd Becky Jeremy â thîm Tyfu Canolbarth Cymru fel Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Cyflwynir y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghanolbarth Cymru wedi'i alinio â'n cyllid a'n mentrau rhanbarthol eraill, gyda Chynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn gosod y fframwaith ar gyfer y gronfa. Bydd Becky yn gyfrifol am reolaeth strategol y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer Canolbarth Cymru, gan weithio'n agos gyda thimau Economi ac Adfywio Cynghorau Powys a Cheredigion i gyflawni prosiectau er budd cymunedau, busnesau a phobl.

Tra bydd y partneriaethau lleol yn ardaloedd y ddau Awdurdod Lleol yn penderfynu ac yn cytuno ar y prosiectau - bydd gan Becky rôl allweddol er mwyn sicrhau aliniad strategol a gweinyddu'r gronfa. Bydd hi'n gweithio'n agos gyda phob un ohonom yn Tyfu Canolbarth Cymru ar draws timau Sgiliau, y Fargen Dwf ac Ymgysylltu Rhanbarthol i sicrhau bod ein holl ffrydiau cyllido yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer Canolbarth Cymru.

Croeso i'r tîm Becky, a pob lwc yn eich rôl newydd!



*1 - Becky Jeremy, Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.*

## Cwrdd y tîm



*2 - Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau Bargen Twf Canolbarth Cymru*

- **Pryd y gwnaethoch chi ymuno â’r tîm?**

Ymunais â'r tîm ym mis Gorffennaf 2021 pan oedd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei sefydlu am y tro cyntaf.

- **Beth yw eich blaenoriaethau ar hyn o bryd?**

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn diweddaru ein Hachos Busnes Portffolio cyffredinol sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Portffolio a sut, gyda'i gilydd, y byddant yn bodloni ein hamcanion ar gyfer y Fargen Twf. Mae'n dipyn o fwystfil o ddogfen ac mae'n fanwl iawn ond yn dangos y gwaith sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni i symud ymlaen â'r Fargen Twf, yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yma a'r hyn sydd o'n blaenau.

Mae hyn yn darparu tystiolaeth i'r ddwy Lywodraeth ein bod yn barod i dderbyn cyllid y Fargen Dwf a dechrau cyflawni felly mae'n bwysig iawn! Wrth gwrs, mae bwrw 'mlaen â'r prosiectau yn rhan fawr o hynny felly rydym yn gweithio'n agos gyda noddwyr y prosiect ar gamau nesaf eu datblygiad achosion busnes. Dyw e ddim yn broses syml a dwi'n credu ein bod ni gyd yn dysgu!

- **Pa ddatblygiadau yr ydych wedi’u gweld dros y blynyddoedd?**

Cyn dechrau ar fy rôl gyda Tyfu Canolbarth Cymru, bûm yn gweithio i ddwy Bartneriaeth Menter Leol, yn bennaf gyda Swydd Northampton ac yn fwy diweddar Swydd Gaerlŷr. Y rhan fwyaf o'r amser hwnnw wnes i reoli'r gwaith o gyflwyno rhaglenni amrywiol a ariennir gan y Llywodraeth sydd wedi cefnogi rhai prosiectau anhygoel. Bu rhai mawr fel Catesby Aerodynamic Research Facility yn Northants a SportPark yn Loughborough ond rwy'n credu bod rhai o'r rhai mwyaf gwerth chweil oedd grantiau i fusnesau lle'r oedd swm cymharol fach o gyllid wedi helpu busnes i ddatblygu, tyfu - a gwneud cymaint o wahaniaeth.

Erbyn hyn, rwy'n rhan o dîm Canolbarth Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr i weld y prosiectau o fewn y Fargen Dwf yn dod yn fyw. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau!




*3 - SportPark, Loughborough. Credydau Llun: Prifysgol Loughborough*

- **Beth yw eich llwyddiant mwyaf hyd yn hyn?**

O mae hwnna'n un anodd! Yn ôl yn 2012, trefnais Uwchgynhadledd Busnes Northampton, roedd dros 20 o siaradwyr, gweithdai amrywiol a dros 200 o fusnesau yn bresennol. Llwyddais i gael Chris Boardman fel siaradwr gwadd hefyd; roedd e'n arbennig o dda.

Roedd symud yn ôl i Gymru yn un arall! Rwy'n wreiddiol o Bont-y-pŵl ac fe wnes i symud i Northampton er mwyn mynd i'r coleg , gan aros yno. Serch hynny, dwi wastad wedi bod eisiau symud yn ôl i Gymru  ac o'r diwedd wedi mentro flwyddyn yn ôl a heb stopio gwenu ers hynny!

- **Beth yw eich gobaith mwyaf o ran y  Bargen Dwf?**

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn uchelgeisiol ond mae'n rhaid bod yn uchelgeisiol i wneud gwahaniaeth. Drwy ein prosiectau a'n rhaglenni, mae gennym y gallu i gyflawni newid sylweddol yn y Canolbarth ac mae hynny'n gyfle anhygoel. Felly, mae'n debyg taw newid cadarnhaol, balchder yn ein cyflawniadau a phrofi y gallwn ei wneud yw e!

- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

Ymroddgar

- **Hoff ddyfyniad?**

"Mae dychymyg yn bwysicach na gwybodaeth" – Albert Einstein

## **Ffaith y mis:** Prentis o Drenewydd a ddaeth yn entrepreneur byd-enwog

### Sir Pryce Pryce-Jones

Roedd Syr Pryce Pryce-Jones (16 Hydref 1834 – 11 Ionawr 1920) yn entrepreneur Cymreig a ffurfiodd y busnes archebu drwy'r post cyntaf, gan chwyldroi sut y gwerthwyd cynhyrchion. Creu'r catalogau archebu drwy'r post cyntaf yn 1861 – oedd yn cynnwys nwyddau gwlân - gallai cwsmeriaid am y tro cyntaf archebu drwy'r post, a chafodd y nwyddau eu darparu ar y rheilffordd.

Ganwyd Pryce-Jones yn Llanllwchaearn, wrth ymyl Drenewydd, Sir Drefaldwyn. Gadawodd yr ysgol yn 12 oed a chafodd brentisiaeth gyda gwerthurwr defnyddiau lleol, John Davies; cymerodd y busnes drosodds yn 1856.

Daeth Pryce-Jones yn llwyddiannus dros ben yn y Deyrnas Unedig lle roedd ganddo dros 100,000 o gwsmeriaid, oedd yn cynnwys Florence Nightingale a'r Frenhines Victoria.  Gaddawodd delifriad post y diwrnod nesaf yn Lloegr. Dechreuodd ei fusnes dramor hefyd, gan werthu gwlanen o Gymru i weddill Ewrop, yr Unol Daleithiau ac yna Awstralia. Yn ystod y 1870au cymerodd ran mewn arddangosfeydd ledled y byd, gan ennill nifer o wobrau, gan ddod yn fyd-enwog.

Ym 1879, adeiladodd Warws Brenhinol Cymreig, adeilad brics coch tal yng nghanol Y Drenewydd sy'n dal i sefyll heddiw ac mae'n ganolfan fenter newydd Busnes Cymru, [Hwb Menter Ffocws y Drenewydd].

Gwybodaeth a gymerwyd o [Wicipedia]




*4 - Warws Brenhinol Cymreig, Drenewydd. Priodoli: Penny Mayes*

## Newyddion eraill



*5 - Dr Gemma Delafield, Swyddog Ynni Rhanbarthol, Tyfu Canolbarth Cymru*

Rydym yn falch o groesawu Dr Gemma Delafield i'r tîm Tyfu Canolbarth Cymru! Mae Gemma yn ymuno â ni yn y rôl newydd, Swyddog Ynni Rhanbarthol. Gan gael ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, a bydd Gemma yn cefnogi datblygiad Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar gyfer Ceredigion a Phowys. Bydd Gemma hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau allweddol a chynlluniau i gefnogi system ynni'r rhanbarth i bontio i sero-net.

Cafodd Tom Yeo, ein Harweinydd Ynni ei secondio i Gyngor Sir Powys i rôl Arweinydd Economaidd a Hinsawdd o 1 Ebrill. Bydd yn parhau i gymryd rhan yn y gwaith rhanbarthol a bydd yn gweithio ochr yn ochr â Gemma, a Bethan Lloyd-Davies yng Nghyngor Sir Ceredigion, i ddarparu cynllun gweithredu ynni rhanbarthol a datblygu cynlluniau ynni ardal leol. Hoffai tîm Tyfu Canolbarth Cymru ddiolch i Tom am ei holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at weithio ochr yn ochr ag ef yn ei rôl newydd. Does dim dianc oddi wrthon ni!



*6 - Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

Fis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar arloesi. Byddwn ni'n edrych ar sut y bydd y [Strategaeth Arloesi newydd]() gan Lywodraeth Cymru yn dylanwadu ar Tyfu Canolbarth Cymru yn ogystal â chyllid ar gyfer prosiectau arloesi, ac mae cyllid blaenorol wedi helpu i sefydlu prosiectau arloesol yn y Canolbarth.

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales


UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds